| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi |
| **DYDDIAD** | 18 Mehefin 2026 |
| **TEITL** | Adroddiad Perfformiad yr Aelod Cabinet dros Addysg |
| **RHESWM DROS GRAFFU** | Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol |
| **AWDUR** | Cyng. Dewi Jones – Aelod Cabinet Addysg |
| **PENNAETH ADRAN** | Gwern ap Rhisiart – Pennaeth Addysg |

## 1. Pam fod angen ei graffu?

Er mwyn i Aelodau'r Pwyllgor graffu ar faterion perfformiad o fewn yr Adran.

## 2. Cefndir / Cyd-destun

### 2.1 Cefndir / Cyflwyniad

Pwrpas yr adroddiad yma yw eich diweddaru ar beth sydd wedi'i gyflawni yn y maes rwy'n gyfrifol amdano fel Aelod Cabinet Addysg. Mae hyn yn cynnwys amlinellu'r diweddaraf gyda'r addewidion yng Nghynllun y Cyngor a mesurau perfformiad yr Adran.

Rydym yn gweithredu ar Gynllun y Cyngor 2023-28, ac yma rwyf yn adrodd ar y cynnydd hyd at ddiwedd Mawrth 2026, gan gydnabod ei bod yn parhau'n ddyddiau cynnar yng nghyd-destun rhai o'r addewidion sy'n newydd yn y ddogfen ers Ebrill 2024. Er hynny, mae'r holl faterion wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu herio gennyf mewn cyfarfod herio perfformiad, ac rwyf yn fodlon gyda pherfformiad yr Adran.

### 2.2 Rhesymeg a chyfiawnhad

#### 2.2.1 Perfformiad Addewidion Prosiectau Cynllun y Cyngor

Rwy'n fodlon iawn gyda'r gwaith a gyflawnwyd yn ystod y cyfnod dan sylw, ac mae diweddariadau ar holl brosiectau Cynllun y Cyngor yr Adran Addysg i'w gweld yn **Atodiad 1**. Hoffwn dynnu eich sylw at y prosiectau canlynol:

#### 2.2.2 Moderneiddio adeiladau a'r amgylchedd dysgu

Mae gwaith y Prosiect 'Moderneiddio adeiladau a'r amgylchedd dysgu' wedi parhau i wneud cynnydd ar draws nifer o safleoedd yn ystod y cyfnod diwethaf.

Yn Ysgol Ein Harglwyddes, mae'r gwaith adeiladu yn symud ymlaen a disgwylir y bydd y prosiect yn cael ei gwblhau yn ystod tymor yr haf gyda'r ysgol yn agor dechrau tymor yr hydref 2026, gan ddarparu cyfleusterau modern fydd yn cefnogi profiadau dysgu gwell i ddisgyblion a'r gymuned ysgol gyfan.

Ym mhrosiect Ysgol Tryfan, datblygwyd cynlluniau pellach ar gyfer yr ysgol yn ystod haf 2025, gan amlygu'r angen i gynyddu'r gyllideb wreiddiol. Yn dilyn hynny, mae'r Cabinet wedi cymeradwyo cynyddu cyllideb y prosiect o £18 miliwn i £23.6 miliwn. Mae'r tîm dylunio yn parhau i ddatblygu cynllun sy'n bodloni gofynion adeiladau sero net, gyda gwaith yn mynd rhagddo i baratoi ar gyfer cyflwyno'r Achos Busnes Amlinellol yn ystod tymor yr haf 2026.

### 2.2.3 Trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar

Mae gwaith y Prosiect 'Trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar' wedi parhau i wneud cynnydd cadarnhaol yn ystod y blwyddyn diwethaf. Fel rhan o'r gwaith i gefnogi datblygiad annibyniaeth plant, mae pecynnau gwybodaeth am doiledu wedi'u dosbarthu i ddarparwyr gofal plant ledled Gwynedd yn ogystal â rhieni. Yn ychwanegol, crëwyd pennod o bodlediad *Mam, Dad a Magu* yn canolbwyntio ar toiledu plant, er mwyn darparu gwybodaeth a chefnogaeth hygyrch i deuluoedd a gweithwyr proffesiynol.

Mae'r Cynllun Gofal Plant 2 oed yn cael effaith gadarnhaol ar deuluoedd drwy roi mynediad i 12.5 awr o ofal plant am ddim, gan helpu i leihau pwysau costau byw. Mae'r Cynllun hefyd wedi parhau i ehangu ar draws y sir. Yn ystod y blwyddyn diwethaf, mae'r cynllun wedi'i ymestyn i Dywyn, Harlech, Llandderfel a Llanuwchllyn, Penrhyndeudraeth, Efailnewydd/Buan, Botwnnog/Tudweiliog, Cricieth, Caernarfon, Llanberis a Phorthmadog Gorllewinol.

### 2.2.4 Hyrwyddo llesiant plant a phobl ifanc a lleihau cost anfon plant i'r ysgol

Yn ystod 2025/26 mae gwaith wedi parhau i hyrwyddo llesiant plant a phobl ifanc a lleihau'r pwysau ariannol ar deuluoedd wrth anfon plant i'r ysgol. Yn dilyn y gwaith ymgynghori cynhwysfawr yn 2024 a'r adborth gwerthfawr a dderbyniwyd gan rieni, dysgwyr, staff a phenaethiaid, mae'r canfyddiadau wedi parhau i lywio gwaith ysgolion a'r awdurdod lleol.

Yn ystod y flwyddyn, mae ysgolion wedi defnyddio canlyniadau'r Awdit Ysgol Cost Gyfeillgar i weithredu camau ymarferol i leihau costau i deuluoedd. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys adolygu polisïau gwisg ysgol, hyrwyddo cynlluniau ail-law, ystyried cost tripiau ysgol a gweithgareddau ychwanegol, a sicrhau bod gwybodaeth am gymorth ariannol ar gael yn glir i rieni a gofalwyr.

Mae'r gweithgor wedi datblygu Siarter Ysgol Cost Gyfeillgar ac mae ysgolion wedi dechrau gweithio tuag at gyflawni'r mesuryddion perthnasol er mwyn cael eu hadnabod fel ysgolion

‘Cost Gyfeillgar’. Mae’r gwaith yma wedi annog ysgolion i rannu arferion da ac i roi mwy o ystyriaeth i effaith costau ysgol ar lesiant a chyfranogiad dysgwyr.

Rydym yn dibynnol ar gyd-weithrediad ysgolion er mwyn gyrru'r agenda yma yn ei flaen gan mai ysgolion unigol sy'n gwneud llawer o'r penderfyniadau sy'n effeithio hyn. Yng ngolau hyn mae gan aelodau sydd hefyd yn lywodraethwyr ysgolion rôl allweddol i'w chwarae wrth ddylanwadu a chraffu ar benderfyniadau ysgolion unigol.

Mae’r prosiect bellach wedi ei weithredu’n llawn, a bydd y gwaith o gefnogi ysgolion i weithredu egwyddorion y Siarter Ysgol Cost Gyfeillgar, rhannu arferion llwyddiannus ar draws y sir, a sicrhau bod llais teuluoedd a dysgwyr yn parhau i lywio’r ddarpariaeth yn rhan o waith dydd i ddydd yr Adran yn hytrach na pharhau fel prosiect penodol o fewn Cynllun y Cyngor.

## 3. Perfformiad yr Adran

Mae Gwasanaethau’r Adran yn perfformio’n dda a chadarnhaf fy mod yn fodlon gyda’u perfformiad presennol. Nid yw’r wybodaeth isod yn cyfeirio at bob Gwasanaeth yn yr Adran, gweler isod rhai o’r uchafbwyntiau. Am fanylion llawn ar berfformiad mesurau'r Adran, gweler **Atodiad 2**.

### Arlwyo

Mae’r ddarpariaeth Cinio Ysgol am Ddim i bob dysgwr cynradd yng Ngwynedd wedi parhau i fod yn llwyddiant yn ystod 2025/26, gyda’r gwasanaeth yn parhau i gefnogi llesiant plant a phobl ifanc ar draws y sir. Mae ysgolion a’r gwasanaeth Arlwyo wedi parhau i gydweithio’n agos i sicrhau darpariaeth gyson o brydau maethlon a deniadol i ddysgwyr.

Mae lefelau derbyn y cynnig wedi parhau’n gadarn yn ystod y flwyddyn, ac mae’r Adran wedi parhau i hyrwyddo manteision cinio ysgol ymysg teuluoedd er mwyn annog mwy o blant i fanteisio ar y ddarpariaeth. Yn Mawrth 2026, ar gyfartaledd, darparwyd 6,160 o brydau cinio ysgol am ddim ar unrhyw ddiwrnod.

Yn ogystal â darparu prydau maethlon, mae’r gwasanaeth wedi parhau i gefnogi blaenoriaethau ehangach y Cyngor drwy hyrwyddo bwyd lleol, lleihau gwastraff bwyd a chodi ymwybyddiaeth ymysg dysgwyr o bwysigrwydd bwyta’n iach.

### Her Ysgolion Cynaliadwy

Mae cynnydd da wedi parhau ar brosiect Her Ysgolion Cynaliadwy yn ystod 2025/26 gyda’r gwaith o baratoi safle’r hen ysgol ym Montnewydd yn digwydd yn ystod y flwyddyn.

Mae’r cydweithio rhwng ysgol Bontnewydd, y gymuned, a phartneriaid y prosiect wedi parhau i fod yn gryf, gyda’r nod o ddatblygu ysgol a chyfleusterau cymunedol eco gyfeillgar sy’n adlewyrchu uchelgeisiau carbon Llywodraeth Cymru. Mae’r prosiect yn parhau i hyrwyddo egwyddorion yr economi gylchol drwy wneud y defnydd gorau o ddeunyddiau wedi’u hailddefnyddio a dulliau adeiladu cynaliadwy.

Mae'r ysgol dros dro wedi parhau i weithredu'n llwyddiannus, gan sicrhau amgylchedd dysgu addas i'r disgyblion tra bod y gwaith cynllunio a pharatoi yn mynd rhagddo.

Mae'r prosiect yn parhau i ddatblygu'n gadarnhaol, gyda'r weledigaeth o greu adeilad modern, cynaliadwy ac arloesol sydd yn diwallu anghenion y gymuned leol am flynyddoedd i ddod.

**Gwasanaeth Cefnogaeth Ysgolion**

Mae'r Gwasanaeth Cefnogaeth Ysgolion wedi parhau i ddatblygu yn ystod 2025/26, gyda ffocws ar gryfhau'r gefnogaeth strategol a gweithredol a ddarperir i ysgolion Gwynedd. Mae'r gwasanaeth wedi sefydlu trefniadau sy'n galluogi ysgolion i gael mynediad mwy cydlynol at gymorth ac arweiniad, gan sicrhau bod anghenion ysgolion, penaethiaid a llywodraethwyr yn cael eu diwallu mewn modd mwy effeithiol ac amserol.

Yn ystod y flwyddyn, bu pwyslais ar ddatblygu perthynas agosach rhwng y gwasanaeth ac ysgolion unigol er mwyn sicrhau bod y gefnogaeth a ddarperir yn adlewyrchu anghenion lleol a blaenoriaethau gwella ysgolion. Mae'r gwasanaeth wedi cefnogi ysgolion mewn meysydd allweddol megis arweinyddiaeth, cynllunio cwricwlwm, a chynllunio gweithlu.

Ers sefydlu'r gwasanaeth, mae swyddogion wedi llwyddo i ymweld â phob ysgol ar draws yr Awdurdod, gan gyfrannu at ddatblygu perthynas agored a chadarnhaol o gydweithio mewn partneriaeth gydag ysgolion.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, gwelwyd gostyngiad sylweddol yn nifer y ceisiadau am swyddi pennaeth, gyda'r her o ddenu unigolion i swyddi arweinyddiaeth ysgolion yn cynyddu. Mewn ymateb i hyn, mae'r Adran Addysg wedi datblygu rhaglen *"Arweinwyr y Dyfodol"* er mwyn darparu cefnogaeth ymarferol a sicrhau llwybr datblygol ac olyniaeth o fewn y system addysg. Mae'r rhaglen yn cael ei chynnal am yr eildro eleni ar gyfer dwy garfan, gyda 17 o gyfranogwyr o'r sector cynradd a saith o'r sector uwchradd yn cymryd rhan.

Ers Ionawr 2026, mae rhaglen newydd hefyd wedi'i sefydlu i ddarparu cefnogaeth bwrpasol ar gyfer penaethiaid newydd a phenaethiaid mewn gofal dros dro. Mae'r rhaglen yn cynnwys cymorth mentor a chyfleoedd rhwydweithio er mwyn cefnogi arweinwyr ysgolion yn ystod cyfnodau cynnar eu harweinyddiaeth. Ar hyn o bryd, mae 22 o benaethiaid wedi ymrwymo i'r rhaglen, ac mae'r adborth hyd yma wedi bod yn gadarnhaol iawn.

Mae'r Gwasanaeth Cefnogaeth Ysgolion hefyd yn darparu cymorth a chyngor i Gyrff Llywodraethu ysgolion ledled y sir. Er mwyn cryfhau'r ddarpariaeth hon ac ymateb i'r galw cynyddol, mae capasiti ychwanegol wedi'i ychwanegu at y tîm yn ddiweddar drwy benodi Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr ychwanegol. Bydd hyn yn galluogi'r gwasanaeth i barhau i ddarparu cefnogaeth amserol ac effeithiol i lywodraethwyr wrth gyflawni eu cyfrifoldebau statudol.

**Presenoldeb**

Mae presenoldeb wedi parhau'n flaenoriaeth yn ystod 2025/26, gyda lefelau presenoldeb yn dangos gwelliant graddol ar draws ysgolion y sir. Er nad yw lefelau presenoldeb wedi dychwelyd yn llawn eto i'r sefyllfa cyn y pandemig, mae'r duedd gyffredinol yn parhau'n gadarnhaol ac yn adlewyrchu effaith gwaith yr Awdurdod a'r ysgolion.

Hyd at Ebrill 2026, roedd presenoldeb cyfartalog yr Awdurdod yn 91.0%, sy'n cyfateb i gyfradd Cymru ar gyfer yr un cyfnod. Mae data hanesyddol Gwynedd yn dangos cynnydd cyson dros gyfnod o dair blynedd, gyda phresenoldeb wedi cynyddu o 89.7% yn 2022/23, i 90.4% yn 2023/24, ac yna i 90.9% yn 2024/25.

Mae'r cynnydd yma wedi'i gefnogi gan ffocws parhaus ar ymyrraeth gynnar, monitro o batrymau presenoldeb, a chydweithio agos rhwng ysgolion, gwasanaethau'r Awdurdod a theuluoedd. Mae cefnogaeth uniongyrchol drwy Swyddogion Lles Addysg wedi parhau'n elfen allweddol o'r gwaith, gan helpu i leihau rhwystrau i fynychu'r ysgol a chefnogi dysgwyr i ail-ymgysylltu â'u haddysg.

**Gwaharddiadau**

Mae gwaith y Gwasanaeth Cynhwysiad, ynghyd â datblygiad pellach yr Uned *Camu I'r Copa* yn Felinwnda, wedi galluogi ysgolion i gael mynediad at gymorth mwy amserol, hyblyg a phwrpasol ar gyfer dysgwyr sydd mewn perygl o ddatgysylltu o addysg brif ffrwd. O ganlyniad, mae ysgolion wedi gallu gweithredu ymyriadau cynharach ac yn fwy effeithiol cyn i sefyllfaoedd gynyddu i'r pwynt lle mae gwaharddiad parhaol yn cael ei ystyried.

Mae gweithrediad y Strategaeth Cynhwysiad newydd wedi cryfhau dull gweithredu mwy cyson ar draws yr ysgolion, gyda ffocws clir ar ymyrraeth gynnar, hyrwyddo llesiant emosiynol a pherthnasoedd cadarnhaol, ynghyd â datblygu arferion cynhwysol a dulliau adferol er mwyn cefnogi dysgwyr yn fwy effeithiol o fewn eu hysgolion prif ffrwd.

Yn ogystal, mae'r ddarpariaeth ymestyn allan wedi parhau i ddatblygu, gan ddarparu cefnogaeth hyblyg ac wedi'i theilwra i anghenion ysgolion a dysgwyr unigol. Er bod heriau'n parhau mewn rhai achosion cymhleth, mae'r cydweithio rhwng ysgolion, y Gwasanaeth Cynhwysiad a'r timau cefnogol wedi cryfhau ymhellach.

**Uned Cyfeirio Disgyblion – Camu I'r Copa**

Mae'n bleser gennym adrodd bod *Camu I'r Copa*, yr Uned Cyfeirio Disgyblion sydd wedi'i lleoli ar safle cyn Ysgol Felinwnda yn Llanwnda, wedi cwblhau dau dymor lawn o weithredu fel darpariaeth gofrestredig lwyddiannus. Ers agor y ganolfan, mae'r ddarpariaeth wedi datblygu'n adnodd gwerthfawr i bobl ifanc y sir, gan ddarparu cefnogaeth addysgol, emosiynol a chymdeithasol mewn amgylchedd diogel, meithringar ac ymatebol.

Yn ystod blwyddyn academaidd 2025/26, mae'r Ganolfan wedi cefnogi nifer o ddysgwyr ag anghenion amrywiol, gyda ffocws clir ar feithrin hyder, gwydnwch ac ymgysylltiad positif ag addysg. Trwy ddosbarthiadau bach, cynlluniau dysgu personol a chefnogaeth therapiwtig briodol, mae llawer o'r disgyblion wedi dangos cynnydd cadarnhaol yn eu llesiant, eu hymddygiad a'u presenoldeb.

Mae'r tîm ymroddedig yn *Camu I'r Copa* wedi gweithio'n agos gyda theuluoedd, ysgolion a gwasanaethau partner i sicrhau bod pob unigolyn yn cael y gefnogaeth fwyaf addas i'w anghenion.  Mae'r cwricwlwm wedi parhau i ddatblygu drwy gynnig cyfuniad o bynciau academaidd, gweithgareddau ymarferol a chyfleoedd i ddatblygu sgiliau bywyd, gyda phwyslais cryf ar lesiant a datblygiad personol. Mae adborth cadarnhaol gan ddisgyblion, rhieni a phartneriaid wedi adlewyrchu'r effaith gadarnhaol y mae'r ddarpariaeth yn ei chael ar bobl ifanc lleol.

Mae lleoliad y Ganolfan yn Llanwnda wedi parhau i fod yn elfen allweddol o'i llwyddiant, gan sicrhau bod pobl ifanc yn gallu cael mynediad at gymorth arbenigol o fewn eu cymuned eu hunain. Mae hyn yn adlewyrchu ymrwymiad parhaus Cyngor Gwynedd i ddarparu addysg gynhwysol, hygyrch ac o safon uchel i bob dysgwr.

**Diogelu a Llesiant**

Yn ystod 2025/2026, bu'r Tîm Diogelu a Llesiant yn canolbwyntio ar sefydlu a chryfhau'r Gwasanaeth Diogelu a Llesiant newydd o fewn ysgolion Gwynedd. Sefydlwyd y gwasanaeth yn llawn, gyda systemau cysylltu a chofnodi ymholiadau bellach yn weithredol ac yn cael eu defnyddio'n gyson gan ysgolion ar draws y sir.

Datblygwyd a gweithredwyd trefniadau newydd ar gyfer ymateb i honiadau yn erbyn staff ysgolion, ynghyd ag adolygu trefniadau hyfforddi i gyd-fynd â safonau diweddaraf Gofal Cymdeithasol Cymru.

Mae trefniadau ymweliadau ansawdd diogelu a monitro bellach wedi eu sefydlu, gyda phrosesau adrodd ac arfarnu ar waith. Mae gwaith pellach wedi ei gynllunio ar gyfer 2026/27 i werthuso a rhannu arferion da. Bellach mae ein trefniadau ymweliadau monitro ansawdd a gwerthuso blynyddol yn gadarn ac yn cymharu'n ffafriol iawn gydag Awdurdodau Lleol eraill.

Parhaodd y gwasanaeth i ddarparu hyfforddiant ac arweiniad i ysgolion drwy gydol y flwyddyn, gan gefnogi ymateb effeithiol i anghenion diogelu a llesiant dysgwyr.

Mae defnydd o ddata presenoldeb a monitro Plant Mewn Gofal (PMG) wedi cryfhau, gyda Dashfwrdd Presenoldeb a systemau ategol yn galluogi monitro mwy effeithiol ar lefel ysgolion, dalgylchoedd a sectorau. Sefydlwyd hefyd broses flynyddol ar gyfer monitro Cynlluniau Addysg Personol Plant Mewn Gofal, gyda hyfforddiant a chefnogaeth yn cael eu darparu i ysgolion.

Roedd heriau staffio o ran sicrhau ymweliadau ansawdd diogelu amserol, ond cafodd hyn ei liniaru drwy gynyddu capasiti'r gwasanaeth o dri i bedwar aelod o staff, gan wella gallu'r tîm i ymateb i alw a chynnal cefnogaeth gyson.

**Gwasanaeth Ieuenctid**

Yn ystod blwyddyn 2025/26, mae'r Gwasanaeth Ieuenctid wedi parhau i ehangu ac atgyfnerthu ei ddarpariaeth gymunedol ar draws Gwynedd, gan sicrhau cyfleoedd eang a hygyrch i bobl ifanc ledled y sir. Mae'r gwasanaeth bellach yn darparu 34 o brosiectau a chlybiau cymunedol wythnosol ar draws Arfon, Meirionnydd a Dwyfor, gan gynnwys clybiau cymunedol sefydlog, darpariaeth symudol a gwasanaethau arbenigol.

Yn ystod y flwyddyn, sefydlwyd 5 clwb cymunedol newydd mewn ardaloedd blaenoriaeth, sef Trawsfynydd, Bala, Llandwrog, Mynytho a Tywyn. Mae'r datblygiad hwn wedi cryfhau mynediad lleol at weithgareddau ieuenctid ac wedi sicrhau bod mwy o bobl ifanc mewn cymunedau gwledig yn gallu manteisio ar ddarpariaeth ddiogel a chefnogol o fewn eu hardal.

Mae'r gwaith partneriaeth wedi parhau'n elfen allweddol o lwyddiant y gwasanaeth. Mae'r cydweithio parhaus gyda'r Urdd wedi galluogi cynnal a datblygu aelwydydd a gweithgareddau ar ôl ysgol ar draws y sir, tra bod gwaith agos gydag ysgolion uwchradd wedi sicrhau darpariaeth fwy cydgysylltiedig ac ymatebol i anghenion pobl ifanc.

Mae cynnydd sylweddol hefyd wedi'i wneud ym maes cyfranogiad ac ymgysylltu pobl ifanc. Mae fforymau pobl ifanc bellach wedi'u sefydlu ar draws Gwynedd, ac mae gwaith wedi dechrau ar ddatblygu fforwm llais pobl ifanc ar lefel y Cyngor. Bydd hyn yn darparu cyfleoedd pellach i bobl ifanc gyfrannu'n uniongyrchol at benderfyniadau sirol a dylanwadu ar wasanaethau sy'n effeithio arnynt.

Yn ogystal, mae'r gwasanaeth wedi dechrau paratoi ar gyfer datblygu Strategaeth Gwaith Ieuenctid bum mlynedd newydd Llywodraeth Cymru. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys ymgysylltu helaeth gyda phobl ifanc, partneriaid a gwasanaethau'r Cyngor er mwyn sicrhau bod anghenion a blaenoriaethau pobl ifanc Gwynedd wrth wraidd y cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Mae cyfarfodydd wyneb yn wyneb wedi eu cynnal er mwyn ymgysylltu gyda phartneriaid y gwasanaeth yng Nghaernarfon, Bangor, Blaenau Ffestiniog, Pwllheli a Bala.

Mae gwaith y Gwasanaeth Ieuenctid wedi parhau i gael effaith gadarnhaol ar lesiant, hyder a datblygiad personol pobl ifanc ledled Gwynedd. Trwy ddarparu mannau diogel a chefnogol i gyfarfod, cymdeithasu a datblygu sgiliau newydd, mae'r gwasanaeth wedi helpu i gryfhau cysylltiadau cymunedol a lleihau teimladau o unigrwydd ac allgáu cymdeithasol.

## 4. Ymgynghori

Mae'r adroddiad wedi ei greu yn seiliedig ar wybodaeth a chynnwys cyfarfod diweddaraf herio a chefnogi perfformiad yr Adran Addysg, gyda'r Prif Weithredwr, y Pennaeth Adran, Rheolwyr Gwasanaeth a finnau yn bresennol yn y cyfarfod hwn.

**Atodiadau:**

**Atodiad 1:** Adroddiad ar brosiectau Cynllun y Cyngor 2025-26
**Atodiad 2:** Mesuryddion Perfformiad yr Adran Addysg